UCHELGAIS PRIFDDINAS

CAPITAL AMBITION

# Adroddiad Ymgynghori Llawn ar Eich Blaenoriaethau ar gyfer Tasglu Cydraddoldeb Hiliol Caerdydd

**Canfyddiadau'r Ymchwil**

**Tachwedd 2020**



Gweithio dros Gaerdydd, gweithio gyda'n gilydd
Working for Cardiff, working together

#gweithiogydangilydd
#workingtogether

CARDIFF CAERDYDD

CARDIFF RESEARCH CENTRE


CREU GWIR IN THESE STONES
FEL GWYDR HORIZONS
O FFWRNAIS AWEN SING

# Tasglu Cydraddoldeb Hiliol Caerdydd

## Cynnwys

Cefndir ..... 2
Beth yw'r Tasglu Cydraddoldeb Hiliol? ..... 2
Sut bydd yr ymgynghoriad yn dylanwadu ar waith y Tasglu? ..... 2
Methodoleg ..... 2
Canfyddiadau'r Ymchwil ..... 3
Adran 1: Meysydd Ffocws ..... 3
Amrywiaeth yn y Sector Cyhoeddus: ..... 3
Dysgu a thyfu i fyny yng Nghaerdydd: ..... 7
Economi Decach: ..... 10
Amrywiaeth mewn Ardaloedd Cyhoeddus: ..... 13
Llais y Dinesydd: ..... 17
Rhywbeth arall: ..... 19
Adran 2: Blaenoriaethau ..... 24
Proffil Demograffig ..... 30

# Cefndir

## Beth yw'r Tasglu Cydraddoldeb Hiliol?

Yn ystod hydref 2020, bydd Cyngor Caerdydd yn cynnull Tasglu Cydraddoldeb Hiliol i fynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail hil a hyrwyddo cydraddoldeb hiliol yn y ddinas.

Bydd y Tasglu yn llywio camau gweithredu cydgysylltiedig a strategol i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb yng Nghaerdydd. Bydd yn gyfrifol am hyrwyddo rhaglen o newid a thrawsnewid er mwyn creu dinas decach i'n preswylwyr Du a Lleiafrifoedd Ethnig.

Er mwyn paratoi ar gyfer lansio'r Tasglu Cydraddoldeb Hiliol, lansiwyd ymgynghoriad cyhoeddus i geisio barn trigolion Caerdydd, yn enwedig y rheini o gefndiroedd Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, ar flaenoriaethau strategol y Tasglu.

Mae Cyngor Caerdydd am wybod, ym marn ein trigolion, beth yw'r problemau mwyaf, a'r cyfleoedd mwyaf, i drigolion Caerdydd sydd o gefndiroedd Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig, fel y gallwn ganolbwyntio ein syniadau a'n hadnoddau i ddod o hyd i'r atebion a fydd yn cael yr effaith fwyaf.

Yn yr ymgynghoriad hwn, cynigiwn rai meysydd i'r tasglu ganolbwyntio arnynt. Mae'r awgrymiadau hyn yn feysydd lle credwn y gallai'r tasglu helpu i wneud gwahaniaeth sylweddol. Maent hefyd yn feysydd lle mae tystiolaeth leol a chenedlaethol yn dweud wrthym fod llawer iawn i'w wneud eto er mwyn sicrhau cydraddoldeb hiliol.

Rydym am ddeall a yw ein trigolion yn cytuno y dylai'r meysydd awgrymedig hyn fod yn flaenoriaethau'r Tasglu, neu a allem fod yn fwy effeithiol drwy ganolbwyntio ar feysydd eraill.

## Sut bydd yr ymgynghoriad yn dylanwadu ar waith y Tasglu?

Bydd canfyddiadau'r ymgynghoriad hwn yn llywio gwaith y Tasglu yn sylweddol yn y misoedd i ddod, gyda ffrydiau gwaith sy'n canolbwyntio ar dasgau wedi'u sefydlu ar gyfer pob blaenoriaeth, hyd at uchafswm o bedwar. Bydd y dull hwn yn galluogi'r Tasglu i elwa ar arbenigedd ymarferwyr credadwy a fydd yn cefnogi'r Tasglu i nodi argymhellion sylweddol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i wella cydraddoldeb hiliol yng Nghaerdydd o fewn pob thema.

# Methodoleg

Datblygwyd arolwg dwyieithog, ar-lein, a'i hyrwyddo ar sianeli cyfryngau cymdeithasol y Cyngor, drwy sefydliadau partner, a'i anfon at Banel Dinasyddion y Cyngor. Roedd yn fyw rhwng 11 Awst a 10 Hydref 2020.

Ar ôl glanhau a dilysu data, er mwyn dileu ymatebion gwag a dyblyg, cynhwyswyd cyfanswm o 869 o ymatebion yn y dadansoddiad.

# Canfyddiadau'r Ymchwil

## Adran 1: Meysydd Ffocws

Cyflwynodd adran gyntaf yr ymgynghoriad feysydd ffocws arfaethedig ar gyfer y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol, a gofynnodd i ymatebwyr nodi a oeddent yn cefnogi pob un i'w gynnwys fel blaenoriaeth, gyda rhesymau dros eu hymateb.

### Amrywiaeth yn y Sector Cyhoeddus:

*Ystyried beth arall y gellir ei wneud i sicrhau bod aelodau a gweithlu'r Cyngor yn cynrychioli amrywiaeth lawn y ddinas y mae'n ei gwasanaethu.*

*Cafwyd cyfanswm o 846 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gan roi cyfradd ymateb cyffredinol o 97.4%.*

**Ydych chi o blaid nodi'r maes hwn yn un â blaenoriaeth?**

Roedd tri chwarter yr ymatebwyr (74.9%) yn cefnogi Amrywiaeth yn y Sector Cyhoeddus.




Roedd y gefnogaeth i Amrywiaeth yn y Sector Cyhoeddus ar ei huchaf ymhlith ymatebwyr o Ethnigrwydd Lleiafrifol, sef 90.7%.

Roedd menywod yn fwy tebygol na dynion o gefnogi hyn (83.1% o gymharu â 71.3% yn y drefn honno), tra bod y gefnogaeth yn uwch ymhlith ymatebwyr iau o gymharu â'r rhai 55 oed a throsodd (79.8% o gymharu â 73.4%).



Cynyddodd y gefnogaeth i'r maes ffocws hwn gyda lefel yr amddifadedd ar gyfer cod post cartref yr ymatebydd:




**Os nad ydych, nodwch pam**

Gofynnwyd i ymatebwyr nad oeddent yn cefnogi'r maes ffocws hwn amlinellu pam. Derbyniwyd cyfanswm o 170 o ymatebion, sydd wedi'u codio i'r themâu canlynol:

| Thema | Nifer | % | Sylwadau enghreifftiol |
|---|---|---|---|
| **Recriwtio ar sail teilyngdod/gallu** | 71 | *41.8* | - *Dylid recriwtio pobl yn ôl y gallu i ymgymryd â'r swydd, nid ar sail crefydd neu dreftadaeth deuluol.*<br>- *Dylid dyfarnu swyddi ar y sail y person gorau ar gyfer swydd, mae lliw croen yn amherthnasol.*<br>- *Dylai'r Cyngor fod yn rhydd i sicrhau bod ganddo'r person gorau yn ei swydd - nid yw hil yn ystyriaeth - mae'n ymwneud â gallu.*<br>- *Credaf y dylai'r flaenoriaeth fod o ran cyflogi'r person gorau ar gyfer swydd, waeth beth fo'i ryw neu gefndir ethnig.*<br>- *Credaf y dylai gweithlu'r cyngor adlewyrchu'r person gorau ar gyfer y swydd sy'n cael ei chyflawni.* |
| **Digon amrywiol** | 31 | *18.2* | - *Mae'n ymddangos yn amrywiol iawn i mi ar hyn o bryd.*<br>- *Amrywiaeth lawn yn cael ei gynrychioli ar hyn o bryd.*<br>- *Mae'n ymddangos ei fod yn ddigon cynrychioliadol.* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Canolbwyntio ar faterion pwysicach** | 30 | *17.6* | - *Er fy mod yn derbyn bod amrywiaeth yn bwysig mae nifer o faterion pwysicach i wario arian trethdalwyr arnynt.*<br>- *Mae materion pwysicach megis addysg, tai a chynnal a chadw priffyrdd!*<br>- *Mae'n bwysig iawn ond nid yw, yn oes COVID 19, yn flaenoriaeth.* |
| **Mae'n wahaniaethol i wneud hynny / yn ymrannol a gall achosi gwrthdaro** | 26 | *15.3* | - *Mae hyn yn drewi o wahaniaethu cadarnhaol, dylid cyflogi pobl oherwydd eu haddasrwydd ar gyfer swydd nid lliw eu croen.*<br>- *Ystyrir amrywiaeth bob amser fel y duedd ddiweddaraf i'w chefnogi, nid yw byth yn gwbl gynhwysol, fel y mae i fod, felly o fewn 'amrywiaeth' ei hun mae gwahaniaethu.*<br>- *Dylai gweithlu fod yn cynnwys y bobl â'r cymwysterau mwyaf addas ar gyfer y rôl honno. Ni ddylai hil, crefydd neu ryw unigolyn fod yn ystyriaeth, dim ond yr hyn y byddant yn ei gyflwyno i'r rôl ac a fyddant yn gwella ei ddinas a sut rydym yn gweithredu. Nid yw gwahaniaethu cadarnhaol yn dderbyniol.* |
| **Cydraddoldeb i bawb** | 22 | *12.9* | - *Dylai fod cyfle cyfartal i bob dinesydd yng Nghaerdydd.*<br>- *Ar hyn o bryd mae angen targedu adnoddau i gwmpasu'r boblogaeth i gyd yn gyfartal.*<br>- *Dylai hyn fod yn flaenoriaeth i bawb nid yn unig o ran hil!* |
| **Gwastraff arian/Amser** | 11 | *6.5* | - *Mae amrywiaeth eisoes gydag aelodaeth y Cyngor, dydw i ddim yn gweld unrhyw bwynt mewn gwastraffu amser ac arian dim ond i dicio blwch.*<br>- *Ddim yn werth y gost.* |
| **Mae angen cynrychioli cymunedau** | 8 | *4.7* | - *Dylai'r rhai sydd orau ar gyfer y swydd gael y swydd. Fodd bynnag, mae angen i gyfran fach fod o wahanol ethnigrwydd ar gyfer yr ethnigrwydd yng Nghaerdydd.*<br>- *Dylai'r gweithlu gynrychioli amrywiaeth llwyr dalgylch y ddinas, sy'n cynnwys cymoedd.* |
| **Amr.** | 10 | *5.9* | - *Mae rhwystrau diwylliannol sy'n atal rhai unigolion o gefndiroedd BAME penodol rhag chwilio am gyflogaeth mewn gwaith a ystyrir fel gwaith diraddiol. Felly, mae ceisio cynnal gweithlu sy'n cynrychioli amrywiaeth y ddinas mewn swyddi fel sbwriel, gwasanaethau glanhau a swyddi eraill â chyflog isel yn wastraff amser ac egni. Yn fyr, nid yw rhai pobl eisiau eich swyddi oherwydd disgwyliadau teuluol a chymunedol.*<br>- *Nonsens 'woke' sy'n cael ei yrru'n wleidyddol yw hyn. Mae'r unig wyddoniaeth a adolygwyd gan* |

| | |
|---|---|
| | *gymheiriaid ar y pwnc hwn yn awgrymu bod amrywiaeth y tîm yn ddefnyddiol ar gyfer arloesi. Fodd bynnag, mae angen homogenedd ar gyfer ymddiriedaeth. Dyma'r cwestiwn y dylech fod yn ei ofyn yw - a oes angen arloesi neu ymddiried yn y cyngor. Yn amlwg, yr olaf yw'r ateb.* |

## Dysgu a thyfu i fyny yng Nghaerdydd:

*Profiadau plant a phobl ifanc BAME mewn addysg.*

*Cafwyd cyfanswm o 842 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gan roi cyfradd ymateb gyffredinol o 96.9%.*

**Ydych chi o blaid nodi'r maes hwn yn un â blaenoriaeth?**

Roedd pedwar o bob pump o'r ymatebwyr (79.1%) yn cefnogi hyn fel maes ffocws i'r Tasglu.




Roedd y gefnogaeth i hyn ar ei huchaf ymhlith menywod (90.1%), y rhai o ethnigrwydd lleiafrifol (89.7%), a'r rhai sy'n byw yn Arc Ddeheuol y ddinas (88.4%).

Roedd ar ei isaf ymhlith dynion (72.6%), y rhai a oedd yn nodi eu bod yn anabl (75.0%), a'r rhai 55 oed a throsodd (77.8%).



Unwaith eto, cynyddodd y gefnogaeth i'r maes ffocws hwn gyda lefel yr amddifadedd ar gyfer cod post cartref yr ymatebydd, gyda'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig bron deirgwaith yn fwy tebygol â'r rhai yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig i ddweud nad oeddent yn cefnogi'r thema hon (31.0% o gymharu ag 11.9% yn y drefn honno).




### Os nad ydych, nodwch pam

Gofynnwyd i ymatebwyr nad oeddent yn cefnogi'r maes ffocws hwn amlinellu pam. Derbyniwyd cyfanswm o 132 o ymatebion, sydd wedi'u codio i'r themâu canlynol:

| Thema | Ydw | % | Sylwadau enghreifftiol |
|---|---|---|---|
| **Trin pob plentyn yn gyfartal / dim blaenoriaeth yn cael ei roi i unrhyw un grŵp** | 72 | *54.5* | - *Yr wyf yn cefnogi'r ethos ond dylai fod ar gyfer pob plentyn.*<br>- *Dylai pob addysg fod yn flaenoriaeth waeth beth yr hil neu'r gredo.*<br>- *Mae gan ardaloedd isaf Llanrhymni, ardaloedd Llaneirwg, Trelái a Llanedern i gyd dlodi erchyll ar gyfer pob hil nid dim ond BAME, dylid canolbwyntio ar dlodi, nid lliw'r croen.*<br>- *Dylai pawb gael hawliau cyfartal gyda mynediad teg at wasanaethau.*<br>- *Mae angen i ni werthfawrogi holl bobl Caerdydd - nid y boblogaeth BAME yn unig.* |
| **Pam achosi gwahaniaethu** | 13 | *9.8* | - *Ni ddylid rhoi blaenoriaeth i unrhyw un grŵp. Mae cydraddoldeb yn gyfle cyfartal i bawb, nid i un grŵp dros y llall. Mae hyn yn groes i gydraddoldeb ei hun.*<br>- *Mae'n ymddangos ei fod yn creu problemau lle nad oes rhai.* |
| **Canolbwyntio ar dlodi dim hil** | 11 | *8.3* | - *Mae profiadau pob plentyn a pherson ifanc yn bwysig. Mae'n bosibl y bydd llawer o blant mewn ystadau gwyn difreintiedig ar gyrion y ddinas yn teimlo eu bod wedi'u heithrio.* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | *Helpwch bawb, peidiwch â phennu cymorth ar sail lliw'r croen.*<br>- *Mae cydraddoldeb yn golygu trin pob plentyn a pherson ifanc yr un fath. Tlodi yw'r broblem.* |
| **Blaenoriaethau pwysicach** | 9 | *6.8* | - *Mae yna bethau pwysicach y mae angen i'r Cyngor fynd i'r afael â nhw cyn cydymffurfio â gofynion yr ychydig.*<br>- *Pethau pwysicach i gael blaenoriaeth. Dylai cwynion hiliol mewn ysgolion gael eu rheoli gan yr athrawon/penaethiaid.* |
| **Digon yn ei le / Mae'r system addysg yn deg** | 7 | *5.3* | - *Digon yn ei le yn barod.*<br>- *Mae'r system addysg yn deg ar hyn o bryd.* |
| **Cyfrifoldeb y rhiant** | 6 | *4.5* | - *Dylai pob plentyn fod yn flaenoriaeth. Rhaid i rieni hefyd gael eu dal yn gyfrifol am hyn ac yn atebol.*<br>- *Credaf y dylai plant BAME gael eu hintegreiddio i gymdeithas drwy gymdeithasu'r rhieni a'r teulu.* |
| **Mae Caerdydd wedi'i hintegreiddio** | 5 | *3.8* | - *Ar ôl ymweld â nifer o ysgolion yn ddiweddar i ddewis ysgol gynradd fy mab, mae ysgolion yng Nghaerdydd eisoes yn amrywiol iawn o ran ethnigrwydd.*<br>- *Mae Caerdydd bob amser wedi bod yn ddinas cyfle i bob grŵp.* |
| **Cefnogi’r syniad** | 4 | *3.0* | - *Rwyf yn cefnogi hyn os caiff ei ehangu i gynnwys pob cenedligrwydd.* |
| **Amr.** | 21 | *15.9* | - *Gellir ymdrin â'r mater hwn orau yn yr ysgol.*<br>- *Mae'r plant yn cymysgu mewn ysgolion ac yn yr awyr agored os yw teuluoedd yn dewis peidio â chymysgu dyna'r dewis y maent yn ei wneud a’u colled nhw ydyw, rydym yn byw mewn gwlad rydd.*<br>- *Mae angen i bob diwylliant integreiddio i fod yn un.* |

## Economi Decach:

*Cefnogi preswylwyr Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth o ansawdd uchel.*

*Cafwyd cyfanswm o 839 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gan roi cyfradd ymateb gyffredinol o 96.5%.*

**Ydych chi o blaid nodi'r maes hwn yn un â blaenoriaeth?**

Roedd tri chwarter yr ymatebwyr (75.1%) yn cefnogi Economi Decach fel maes i'r Tasglu ganolbwyntio arno.




Roedd ymatebwyr o ethnigrwydd lleiafrifol yn arbennig o fwy tebygol na grwpiau eraill a ddadansoddwyd i gefnogi'r thema hon (93.0%)

Roedd y cymorth ar ei isaf ymhlith y rhai a oedd yn nodi eu bod yn anabl (62.1%), dynion (70.7%) ac ymatebwyr hŷn (71.4%)



Unwaith eto, cynyddodd y gefnogaeth i'r maes ffocws hwn gyda lefel yr amddifadedd ar gyfer cod post cartref yr ymatebydd, gyda'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig bron ddwywaith mor debygol â'r rhai yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig i ddweud nad oeddent yn cefnogi hyn.




### Os nad ydych, nodwch pam

Gofynnwyd i ymatebwyr nad oeddent yn cefnogi'r maes ffocws hwn amlinellu pam. Derbyniwyd cyfanswm o 173 o ymatebion, sydd wedi'u codio i'r themâu canlynol:

| Thema | Ydw | % | Sylwadau enghreifftiol |
|---|---|---|---|
| **Recriwtio ar allu nid ethnigrwydd** | 86 | *49.7* | - *Yn bendant na, nid yw ethnigrwydd neb yn bwysicach na'u galluoedd.*<br>- *Dylai pobl gael swydd yn seiliedig ar eu cais/cyfweliad NID lliw croen.*<br>- *Rhaid i gyflogaeth fod ar allu, nid lliw na chwotâu hiliol.*<br>- *Dylai fod yn seiliedig ar y person gorau ar gyfer y swydd yn hytrach nag ethnigrwydd.*<br>- *Rwy'n credu y dylid penodi'r person gorau ar gyfer y swydd, waeth beth fo'i hil.* |
| **Mae pob un yn cael yr un cyfleoedd** | 77 | *44.5* | - *Dylid cefnogi pob preswylydd i gyflawni hyn.*<br>- *Dylai pawb gael yr un cyfleoedd.*<br>- *Cefnogi pob preswylydd yn ôl yr angen.*<br>- *Yr un cyfleoedd i bawb*<br>- *Mae gan bawb yn y wlad hon yr un cyfle, rydych yn gwneud eich dyfodol eich hun.* |
| **Gwahaniaethu cadarnhaol** | 33 | *19.1* | - *Ni ddylid gwahaniaethu'n gadarnhaol mewn unrhyw ffordd - dylid cefnogi pawb i allu rhoi o'u gorau waeth beth fo'u hil.*<br>- *Dylid trin holl drigolion Caerdydd yr un fath heb unrhyw wahaniaethu cadarnhaol.* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | - *Mae canolbwyntio ar boblogaeth benodol yn wahaniaethol.* |
| **Mae yna grwpiau difreintiedig eraill** | 19 | *11.0* | - *Pam, beth am drigolion dosbarth gweithiol gwyn.*<br>- *Mae amrywiaeth yn ehangach na BAME yn unig.*<br>- *Nid dim ond pobl BAME sydd angen mynediad i gyflogaeth o ansawdd uchel, beth am bobl ag anableddau, Pobl Fyddar, Rhannol Ddall?* |
| **Digon ar waith yn barod** | 15 | *8.7* | - *Ni allaf ddod o hyd i dystiolaeth bod mynediad o'r fath yn cael ei wrthod mewn gwirionedd ar sail hil/lliw.*<br>- *Mae'r cyfleoedd eisoes ar gael, mae meddygon / nyrsys / deintyddion Asiaidd / Du di-rif / yng Nghaerdydd a llawer o bobl nad ydynt yn wyn yn seremoniau graddio fy mhlant (cyfraith / cyfrifyddiaeth).* |
| **Materion pwysicach** | 8 | *4.6* | - *Mae materion pwysicach o lawer sy'n effeithio ar bob un ohonom.*<br>- *Prin ei fod yn flaenoriaeth.* |
| **Amr.** | 7 | *4.0* | - *Onid ydym yn gwneud hyn yn awr, os na, cywilydd ar y cyngor sy'n rheoli am beidio â gwneud hyn?*<br>- *Cyfrifoldeb y cyflogwr.* |

## Amrywiaeth mewn Ardaloedd Cyhoeddus:

*Adolygu sut rydym yn coffáu ein hanes mewn mannau cyhoeddus a bywyd diwylliannol. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi'r archwiliad ledled Cymru o gerfluniau, enwau strydoedd ac adeiladau, o fewn cyd-destun archwilio cysylltiadau â'r fasnach gaethion.*

*Cafwyd cyfanswm o 847 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gan roi cyfradd ymateb gyffredinol o 97.5%.*

**Ydych chi o blaid nodi'r maes hwn yn un â blaenoriaeth?**

Roedd barn yn fwy rhanedig ynghylch gwneud y maes hwn yn flaenoriaeth, gyda 59.4% o gefnogaeth, a 40.6% yn erbyn.




Unwaith eto, roedd y gefnogaeth i'r maes ffocws hwn ar ei huchaf ymhlith ymatebwyr o ethnigrwydd lleiafrifol (78.7%), yn cyferbynnu â 41.6% gan ymatebwyr a oedd yn nodi eu bod yn anabl.



Er nad yw'n gydberthynas glir, dangosodd y rhai sy'n byw yn ardaloedd mwy difreintiedig y ddinas gefnogaeth lefel uwch i hyn na'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd llai difreintiedig:




**Os nad ydych, nodwch pam**

Gofynnwyd i ymatebwyr nad oeddent yn cefnogi'r maes ffocws hwn amlinellu pam. Derbyniwyd cyfanswm o 292 o ymatebion, sydd wedi'u codio i'r themâu canlynol:

| Thema | Ydw | % | Sylwadau enghreifftiol |
|---|---|---|---|
| **Ein treftadaeth ni ydyw - mae angen i ni ddysgu oddi wrth Hanes / Methu ei newid** | 194 | *66.4* | - *Rhowch y gorau i geisio ailysgrifennu hanes -- mae angen esbonio caethwasiaeth yng nghyd-destun yr oes heb y polisi presennol o bardduo pobl wyn gan anwybyddu'r ffaith bod pobl Ddu ac Arabaidd yn cymryd rhan weithredol yn y fasnach gaethweision.*<br>- *Mae hanes sy'n cael ei ddileu o'n golwg yn dileu'r gallu i ddysgu o'r gorffennol.*<br>- *Boed yn dda neu'n ddrwg, gadewch i ni i GYD ddysgu o'n gwir hanes. Mae cuddio tystiolaeth fel hyn yn fath o sensoriaeth y dylai unrhyw gymdeithas deg ei gwrthwynebu.*<br>- *Credaf o'r pwynt hwn wrth symud ymlaen na ddylid defnyddio unrhyw gyfeiriadau pellach at y fasnach gaethweision. Hanes yw'r hyn ydyw. Ni ddylai'r fasnach gaethweision gael ei gogoneddu na'i hanghofio. Gall dileu pob cyswllt gael effaith groes i'r hyn a fwriedir.*<br>- *Ni allwn ddileu ein gorffennol. Rhaid i ni dderbyn hyn ond darparu addysg, fel arall a ydym yn dileu ac yn dinistrio pob cyfeiriad at y rhufeiniaid, y Llychlynwyr, Mari brenhines yr Albanwyr, y Tuduriaid. Byddai perchnogion ffatrïoedd a oedd yn oleuedig ac yn ceisio helpu eu gweithwyr yn cael eu hystyried yn ecsbloetwyr a pherchnogion* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | *siopau chwys nawr. Y gorffennol yw'r gorffennol. Wedi'u datgan yn gynnil gyda phlaciau yn esbonio'r rheswm dros y cerfluniau a'r hyn a wnaethant o'i le.* |
| **Esbonio cyd-destun yr amseroedd** | 89 | *30.5* | - *Mae'r darnau hyn o ddodrefn stryd wedi datblygu dros amser hir ac yn gywir ar yr adeg yr aethant i fyny - dylem ddeall yn well pam yr aethant i fyny a pheidio â chanolbwyntio arnynt fel pethau gwleidyddol gywir yn awr - os oeddent yn anghywir bryd hynny - pam yr ydym ni'n iawn nawr?*<br>- *Rydym yn dysgu o'n hanes a'n hen ddinasyddion yn codi cerfluniau ac ati yn ein hatgoffa o sut yr oeddent yn edrych ar fywyd bryd hynny.*<br>- *Bydd yn arwain at guddio ein gorffennol a bydd cenedlaethau'r dyfodol ddim yn gwybod am y digwyddiadau cywilyddus yn ein gorffennol.*<br>- *Cerfluniau yw ein hanes. Ni allwn eu hanwybyddu. Efallai nad yw'r hyn y maent wedi'i gynrychioli yn addas i ni yn awr, ond nid yw hynny'n newid yr hyn a ddigwyddodd yn y gorffennol.* |
| **Materion pwysicach** | 62 | *21.2* | - *Mae gennych chi bethau gwell i'w gwneud. Edrychwch i'r dyfodol, nid y gorffennol.*<br>- *Mae cymaint o faterion pwysicach.*<br>- *Teimlaf y dylai'r blaenoriaethau gael effaith uniongyrchol ar wella bywydau unigolion BAME. Nid wyf yn teimlo y bydd y flaenoriaeth hon o fudd i BAME* yn yr un modd ag y bydd y blaenoriaethau uchod.<br>- *Dylai'r pwyslais mewn mannau cyhoeddus a bywyd diwylliannol fod ar hanes Cymru. Mae archwilio cysylltiadau â masnach gaethweision yn bwysig, ond mae is-set gymharol fach o hyn.* |
| **Cefnogi'r Newidiadau** | 22 | *7.5* | - *Rwy'n credu ei bod yn bwysig ond yn flaenoriaeth is nag addysg a chamau ymarferol i fynd i'r afael â heriau pobl yn y presennol.*<br>- *Gellir gwneud hyn ar ôl mynd i'r afael â'r prif faterion.*<br>- *Mae'n bwysig ond dylid blaenoriaethu addysg a chyflogaeth os yw'r arian yn gyfyngedig.* |
| **Gwastraff arian** | 20 | *6.8* | - *Mae hynny'n wastraff arian. Nid oes neb yn poeni am / neu'n gallu gweld. Gwario'r arian ar gludo pobl ddigartref i fannau eraill.*<br>- *Ble rydym yn y pen draw yn tynnu'r llinell mewn perthynas â grwpiau sydd wedi cael eu hymyleiddio neu eu trin yn wael dros ganrifoedd? Mae'n wastraff arian y cyngor.* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Canolbwyntio ar y presennol/y dyfodol** | 15 | *5.1* | - *Dylem ganolbwyntio ar wella'r cyfleoedd i bobl yn awr, yn hytrach na gwastraffu amser yn poeni am y gorffennol.*<br>- *Dyma ein hanes ni, beth sy'n bwysig yw nawr a'r dyfodol .* |
| **Hanes Cymru.** | 11 | *3.8* | - *Mae'n hanes Cymru - tynnwch yr hanes - collwch ei hunaniaeth. Rwy'n credu y dylai cerfluniau aros ond cynnwys placiau sy'n cynnwys gwybodaeth; yn crybwyll unrhyw ymwneud â masnach gaethweision.*<br>- *Dylai'r pwyslais mewn mannau cyhoeddus a bywyd diwylliannol fod ar hanes Cymru. Mae archwilio cysylltiadau â'r fasnach gaethweision yn bwysig, ond mae is-set gymharol fach o hyn.* |
| **Amr.** | 4 | *1.4* | - *Mae hanes da a drwg yn cael ei goffáu gan enwau strydoedd a cherfluniau- dylid cyfeirio unrhyw un sy'n cael ei gynhyrfu gan gerflun at wasanaethau seiciatrig gwych y ddinas.*<br>- *Gallai hyn fod yn ymrannol os bydd newid enwau presennol.*<br>- *Gwareiddiad y Gorllewin wnaeth caethwasiaeth yn anghyfreithlon. Daeth trigolion amlddiwylliannol cyfoethog Caerdydd yma oherwydd cyfle a ffyniant a dylid dathlu hyn, ond nid fel blaenoriaeth benodol i gyd-fynd â'r agenda ffasiynol.* |

## Llais y Dinesydd:

*Cefnogi cyfraniad dinesig a democrataidd cymunedau BAME* trwy gofrestru pleidleiswyr a sicrhau bod cymunedau *BAME* Caerdydd yn cael eu cyfrif yng Nghyfrifiad 2021.

*Cafwyd cyfanswm o 845 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gan roi cyfradd ymateb gyffredinol o 97.2%.*

**Ydych chi o blaid nodi'r maes hwn yn un â blaenoriaeth?**

Roedd pump o bob chwech o'r ymatebwyr (84.0%) yn cefnogi blaenoriaethu'r maes ffocws hwn.




Roedd y cymorth ar ei uchaf ymhlith ymatebwyr a oedd yn byw yn Arc Ddeheuol y ddinas (82.4%), y rhai o ethnigrwydd lleiafrifol (91.5%) a menywod (90.5%). Roedd ar ei isaf ymhlith y rhai a oedd yn nodi eu bod yn anabl (81.1%), dynion (82.1%), ac ymatebwyr hŷn (82.7%).

Nid oedd patrwm ymateb wrth edrych ar y gwahanol lefelau o amddifadedd yn y ddinas.



**Os nad ydych, nodwch pam**

Gofynnwyd i ymatebwyr nad oeddent yn cefnogi'r maes ffocws hwn amlinellu pam. Derbyniwyd cyfanswm o 97 o ymatebion, sydd wedi'u codio i'r themâu canlynol:

| Thema | Ydw | % | Sylwadau enghreifftiol |
|---|---|---|---|
| **Cyfrifiad eisoes yn berthnasol i bob** | 34 | 35.1 | - *Mae pob preswylydd eisoes wedi'i gynnwys yn y cyfrifiad.*<br>- *Mae gennym eisoes ffurflenni sut neu pa genedligrwydd ydym ni.*<br>- *Nid wyf yn deall yr hyn yr ydych yn ei ofyn yma. Dylid cynnwys pawb yn y cyfrifiad.*<br>- *Yr oeddwn yn meddwl ei bod eisoes yn ddisgwyliedig i drigolion ymuno â'r Cyfrifiad.*<br>- *Dylai fod ar waith eisoes.* |
| **Dylai hyn fod yn berthnasol i bawb nid yn unig BAME** | 32 | 33.0 | - *Dylai fod yn gyffredinol nid dim ond BAME.*<br>- *Dylid eu trin yr un fath â phawb arall heb fod yn wahanol.*<br>- *Dylid trin pawb yn gyfartal beth bynnag eu hil/lliw! Dylai'r ymgyrch Mae Bywydau Du o Bwys fod yn Mae Bywydau Pawb o Bwys*<br>- *Dylem sicrhau bod PAWB yn cael ei gynnwys yn y Cyfrifiad - nid y gymuned BAME* yn unig.<br>- *Dylai pob grŵp amrywiol fod yn fater trafodaeth, nid dim ond y mater ffasiynol diweddaraf.* |
| **Cyfrifoldeb / dewis unigol** | 26 | 26.8 | - *Mae pob dinesydd yn cael ffurflen cyfrifiad a mater i bob un ohonom yw ei chwblhau.*<br>- *Rhaid bod pobl yn gallu ymdrin â'u ffurflenni cofrestru pleidleiswyr a'u ffurflenni Cyfrifiad eu hunain.*<br>- *Dylai pawb gymryd cyfrifoldeb unigol dros gofrestru i bleidleisio a chwblhau'r cyfrifiad.*<br>- *Rhaid mai cyfrifoldeb yr unigolyn yw cofrestru'n briodol.* |
| **Gwahaniaethu cadarnhaol** | 17 | 17.5 | - *Mae'n dechrau swnio fel pe bai bod yn wyn yn anfantais.*<br>- *Oherwydd ei fod yn hiliol. Dylai lliw croen rhywun fod yn fater cwbl amherthnasol.*<br>- *Mae hyn yn swnio'n rhagfarnllyd ac yn hiliol.* |
| **Ddim yn flaenoriaeth** | 8 | 8.2 | - *Gellid gwario adnoddau prin y cyngor yn well.*<br>- *Ni welaf unrhyw reswm dros hyn.* |
| **Amr.** | 5 | 5.2 | - *Ni fydd hyn yn dod â swyddi nac yn gwneud pobl yn well.*<br>- *Ddim yn siŵr y byddai hyn yn gwella pethau.*<br>- *Dylid rhoi mwy o bwyslais ar integreiddio a datblygu ac esblygiad diwylliant unigryw* |

| | |
|---|---|
| | *Gymreig/Prydeinig ym mha bynnag siâp y mae'n ei gymryd dros y cenedlaethau.* |

## Rhywbeth arall:

*Hoffech chi awgrymu blaenoriaeth wahanol i'r Tasglu?*

*Cafwyd cyfanswm o 787 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gan roi cyfradd ymateb gyffredinol o 90.6%.*

**Ydych chi o blaid nodi'r maes hwn yn un â blaenoriaeth?**

Roedd gan ychydig dros draean o'r ymatebwyr (37.0%) awgrym ar gyfer maes ffocws ychwanegol i'r Tasglu edrych arno.




Sail: 787

Roedd ymatebwyr hŷn yn arbennig o fwy tebygol na'u cymheiriaid iau o gyflwyno cynnig amgen (40.3% o'i gymharu â 26.8% yn y drefn honno).



**Dwedwch wrthym beth yw eich syniad**

Yn gyffredinol, derbyniwyd 278 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, sydd wedi'u grwpio i mewn i'r themâu canlynol:

| Thema | Ydw | % | Sylwadau enghreifftiol |
|---|---|---|---|
| **Cydraddoldeb i bawb** | 67 | 24.1 | - *Trin pob dinesydd yn gyfartal.*<br>- *Sicrhau bod pob dinesydd yn cael ei drin yn gyfartal - nid rhagfarn gadarnhaol, nid ffafriaeth - cyfle cyfartal i BAWB - dim rhagfarn i unrhyw gyfeiriad.*<br>- *Mae hyn yn ymwneud ag amrywiaeth a chydraddoldeb. O'r herwydd, dylai gwmpasu pob ethnigrwydd a pheidio â gwahaniaethu'n gadarnhaol dros un arall. Hynny yw, Dylai pobl Du, Asiaidd, Gwyn Cymreig i gyd gael yr un cyfleoedd.*<br>- *Gwneud yn siŵr bod pawb yn cael eu trin yn deg, nid dim ond y rhai y mae eu lleisiau uchaf.*<br>- *Edrychwch i'r dyfodol, nid y gorffennol. Peidiwch â cheisio newid ein diwylliant a'n hanes. Yn hytrach na chanolbwyntio ar drigolion BAME*, canolbwyntiwch ar gael cydraddoldeb a chynrychiolaeth i bawb. |
| **Addysg/Hanes** | 53 | 19.1 | - *Dysgu pawb mai un hil sydd, sef yr hil ddynol.*<br>- *Mae hanes pobl dduon yn rhan orfodol o'r cwricwlwm mewn ysgolion.*<br>- *Gwersi gorfodol mewn ysgolion i bob plentyn mewn perthynas â hanes pobl dduon, dinasyddiaeth a chyfrifoldeb personol / ar y cyd*<br>- *Mae newid yn digwydd drwy addysg. Mae angen gwneud hyn ar bob lefel ym mhob diwylliant. Nid oes diben canolbwyntio ar hanes Prydain pan nad ydych yn herio agweddau gwledydd eraill lle mae'r fasnach gaethweision yn broffidiol a bod llafur plant yn cael ei dderbyn.* |
| **Cyflogaeth / hiliaeth sefydliadol / arweinyddiaeth** | 35 | 12.6 | - *Canran y gweithlu o gefndir BAME i'w chyflogi gan yr ALl mewn swyddi rheoli. Beth sy'n cael ei wneud i gydbwyso hyn?*<br>- *Ymrwymiad i gael cynrychiolaeth sylweddol o grwpiau BAME* mewn swyddi uwch gyngor yn ystod y 3 blynedd nesaf.<br>- *Sicrhau bod cyflog cyfartal i staff BAME* yn y gweithle.<br>- *Hoffwn weld ymdrechion i sicrhau bod pobl BAME yn cael eu hannog i weithlu prif ffrwd y ddinas.* Ar hyn o bryd, mae'n ymddangos eu bod wedi'u crynhoi mewn rhai ardaloedd, e.e. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Gyrru tacsis, arlwyo. Rhaid i hyn ddechrau gydag ysgolion a cholegau. |
| **Cyfathrebu gwell** | 26 | 9.4 | - *Ymgysylltu, hysbysu, cynnwys, os na allwch gael y rhan fwyaf o gymunedau dan sylw i gymryd rhan, nid yw'n debygol o fod yn llwyddiannus. Rydych chi'n mentro dieithrio cymunedau os byddwch yn newid enwau ac yn tynnu cerfluniau i lawr heb ymgynghori a Chymryd Rhan. Roeddwn i'n meddwl bod y bleidlais ar gyfer y cerflun yn gadarnhaol iawn. Roedd yn hysbysu ac yn caniatáu i'r gymuned bleidleisio. Os ydych chi'n penderfynu tynnu cerfluniau i lawr pwy ddylai fynd yn eu lle?*<br>- *Slogan syml "cydraddoldeb i bawb sy'n byw yng Nghymru" yw'r cyfan sydd ei angen arnoch (os oes angen unrhyw beth o gwbl, ac rwyf yn amau hynny). Ond wedi ei ysgrifennu yn Saesneg yn unig oherwydd nad oes gan bron i 80% o Gymry a 99.99999% o bobl BAME hyd yn oed y gafael mwyaf sylfaenol ar y Gymraeg - a llawer iawn mwy i'r pwynt nid oes ganddynt unrhyw awydd o gwbl i wastraffu unrhyw ran o'u hoes werthfawr yn ymwneud â'r iaith.* Yn amlwg gan gynnwys fi!<br>- *Esbonio i'r mwyafrif gwyn pam mae materion BAME* yn bwysig a gall arwain at gymdeithas annheg sydd wedi'i difrodi |
| **Gwella canfyddiad y cyhoedd** | 23 | 8.3 | - *Cynnwys mwy o hanes BAME yng cwricwlwm yr ysgol ac addysgu plant am wahanol ddiwylliannau.* Dylai creu dealltwriaeth a goddefgarwch i eraill yn ifanc feithrin y genhedlaeth nesaf o blant yng Nghaerdydd i beidio â bod mor anwybodus â'u rhieni.<br>- *Mae'r cyfryngau'n defnyddio dulliau ymfflamychol wrth ddelio â'r mater hwn, sicrhewch fod y cyhoedd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf gennych ac nid y cyfryngau camarweiniol.* |
| **Ymgysylltu'n well** | 23 | 8.3 | - *Cyflwyno cyllid neu estyn allan at bobl i ddechrau rhaglen sadwrn ban Affricanaidd neu ar ôl ysgol.*<br>- *Mwy o ffocws ar wasanaethau ieuenctid i ymgysylltu â phobl ifanc BAME* yn gynharach. |
| **Integreiddio Gwell** | 22 | 7.9 | - *Sicrhau bod pobl BAME* yn cael eu hintegreiddio ledled y gymuned h.y. heb eu cartrefu mewn ardaloedd o gymunedau *BAME* mawr e.e. Butetown.<br>- *Mae gan rai rhannau o gymunedau BAME unigolion nad ydynt yn cael integreiddio a dylai* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | *hyn fod yn faes sy'n peri pryder.* Drwy hyn, rwy'n meddwl yn arbennig am y menywod hynny sy'n cael eu dominyddu gan eu dynion ac nad ydynt yn cael llawer o ddewis personol mewn unrhyw beth. |
| **Iechyd** | 16 | 5.8 | - *Mynd i'r afael â gofal iechyd teg i gymunedau BAME* fel y dangoswyd gan bandemig COVID-19.<br>- *Dylai awtistiaeth yn y gymuned Somali gael blaenoriaeth hefyd gan fod mwy o achosion ymhlith plant o gefndiroedd Somali.* |
| **Mynd i'r afael â hiliaeth** | 16 | 5.8 | - *Mae llawer o bobl yn dal i fyw yng Nghaerdydd gyda safbwyntiau hiliol eithafol. Mae angen i ni fynd i'r afael â hyn.*<br>- *Gwneud hiliaeth yn anghyfreithlon ac o bosibl rhoi dedfrydau o garchar ar ei chyfer.* |
| **Heddlu / amrywiaeth / triniaeth** | 13 | 4.7 | - *Herio a chefnogi sut mae gwrywod du yn arbennig yn cael eu canfod a'u trin gan yr heddlu.*<br>- *Archwilio plismona - stopio a chwilio.* |
| **Tlodi** | 13 | 4.7 | - *Dylai'r tasglu edrych ar pam nad yw rhai grwpiau ethnig o fewn y BAME yn gwneud yn cystal â grwpiau BAME* eraill. Os canfyddir efallai mai tlodi yw'r achos, yna mae angen ei werthuso yn erbyn grwpiau tebyg nad ydynt yn *BAME* ac sydd yn yr un grŵp tlodi.<br>- *Sut mae safoni arholiadau TGAU a Safon Uwch sy'n gysylltiedig â pherfformiad hanesyddol ysgolion yn effeithio ar ddisgyblion ym mhob ysgol yng Nghaerdydd a sut mae hyn yn effeithio ar ddisgyblion o gymunedau difreintiedig gan gynnwys cymunedau hanesyddol.* |
| **Hyfforddiant Gwell** | 13 | 4.7 | - *Cydraddoldeb mewn hyfforddiant sgiliau ar draws pob cymuned.*<br>- *Hyfforddiant sgiliau i bobl ifanc a gweithgareddau i bobl ifanc yn eu harddegau, yn enwedig bechgyn.* |
| **Diddymu'r Tasglu / Gwastraff Arian** | 12 | 4.3 | - *Ei ddiddymu a rhoi'r arian a arbedwyd tuag at atgyweirio ein ffyrdd gwarthus.*<br>- *Nid oes angen "tasglu". Gwastraff amser ac ymdrech dim ond er mwyn ymddangos yn wleidyddol gywir.* |
| **Pryderon troseddu** | 10 | 3.6 | - *Edrych ar gaethwasiaeth masnach rhyw, a'i ddileu; y syniad o blant a merched ifanc yn cael eu masnachu a byth yn gwybod llawenydd rhyddid yw'r caethwasiaeth waethaf bosibl. Mae priodas plant yn gwneud i fi deimlo'n sâl,* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | *plant 12 oed yn cael eu gorfodi i briodi dynion 45 oed ac yn yr achosion gwaethaf ar eu noson briodas yn cael eu defnyddio'n giaidd ac yn marw o golled gwaed. Mae hyn yn digwydd drwy'r amser ledled y byd, rhowch lais i'r plant druan hyn. Gwahardd tripiau i wledydd lle mae plant yn cael eu gwerthu'n rheolaidd i'r fasnach ryw.*<br>- *Mwy o ymdrech gyda'r don o droseddu gan Somaliiad yng Nghaerdydd... Mae'n broblem wirioneddol. Dw i wedi cael cyllell wedi'i thynnu arna i. Cael sgwatwyr oddi ar strydoedd Canol y Ddinas. Gwnewch rywbeth gwerth chweil ac nid y sbwriel gwastraffu arian hwn.* |
| **Tai** | 10 | 3.6 | - *Sicrhau bod Caerdydd yn cynnal amrywiaeth mewn tai. Pam yr ydym yn setlo cymunedau mewn amodau geto ac o fewn dim ond un gymuned?*<br>- *Mynediad i dai o ansawdd da.* |
| **Cymuned Busnes BAME** | 7 | 2.5 | - *Helpu busnesau cymunedol ac entrepreneuriaid **BAME** nad ydynt bob amser yn cael yr un cyfle neu gyllid ar gyfer eu syniadau.*<br>- *Cynrychioli **BAME** mewn busnesau a thrin pobl fusnes dduon yn deg.* |
| **Ieuenctid** | 8 | 2.9 | - *Mwy o gymorth i ddatblygu gweithgareddau a chymorth ieuenctid e.e. canolfannau ieuenctid dan oruchwyliaeth, clybiau bocsio ac ati i helpu i leddfu ymddygiad gwrthgymdeithasol a chamddefnyddio cyffuriau.*<br>- *Byddai ymchwilio gan y Tasglu i'r ddarpariaeth chwaraeon ar lawr gwlad yn y ddinas yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd yr holl breswylwyr.* |
| **Mae angen i'r tasglu fod yn gynrychioliadol** | 8 | 2.9 | - *Rhaid i'r tasglu fod yn cynnwys grwpiau'r ddinas, rhaid i'r cyngor gofio ein bod i gyd yn talu'r dreth gyngor.*<br>- *Sicrhau nad oes unrhyw orgynrychiolaeth.* |
| **Yr Henoed** | 7 | 2.5 | - *Beth am bobl hŷn sydd wedi byw a chyfrannu at economi Caerdydd ar hyd eu hoes.*<br>- *Tai rhent fforddiadwy i'r henoed sy'n byw mewn cyflwr cyfyng a gwael!* |
| **Amr.** | 50 | 18.0 | - *Canolbwyntiwch ar rywbeth nad yw wedi torri. Fel ffordd liniaru'r M4 well i Gymru.*<br>- *Byddai hyrwyddo agweddau dinesig da, cyfreithlondeb, moeseg gwaith caled, priodas a thadau mewn cartrefi yn helpu. Atal beichiogrwydd ymhlith pobl ifanc, hyrwyddo addysg a phrentisiaethau, gwirfoddoli. Adeiladu cyfleusterau chwarae da ar gyfer clybiau plant* |

| | |
|---|---|
| | *ac ieuenctid ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau. Gweithgareddau mentora yn canolbwyntio'n benodol ar fechgyn o gefndiroedd tlawd neu aelwydydd di-dad.*<br>- *Cefnogi'r lleiafrif Cymreig a'u diwylliant a'u hiaith.*<br>- *Mae plant iau yn cymysgu'n ddi-gwestiwn fel arfer. Trafod pam mae'n ymddangos bod hyn weithiau'n diflannu wrth iddynt fynd yn hŷn. A ydynt yn ymateb i ddylanwad rhieni, neu hyd yn oed ddylanwad eu hathrawon?*<br>- *Rhoi'r gorau i neidio ar y bandwagon Mae Bywydau Du o Bwys* |

## Adran 2: Blaenoriaethau

Yna gofynnwyd i ymatebwyr flaenoriaethu'r gwahanol feysydd ffocws, drwy ddewis eu tair thema uchaf.

*Dilyswyd ymatebion i'r cwestiwn hwn i eithrio rhai heb ymateb (145), ac ymatebion lluosog (e.e. graddio mwy nag un opsiwn yn y safle cyntaf; 58 o ymatebion), gan gynnwys dim ond y rhai a roddodd o leiaf un sgôr graddio unigryw i flaenoriaethu maes ffocws. Rhoddodd hyn gyfanswm o 666 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, cyfradd ymateb o 76.6%.*

Cyfrifwyd sgoriau drwy neilltuo tri phwynt ar gyfer pob safle lle cyntaf, dau bwynt ar gyfer pob ail le, ac un pwynt ar gyfer pob trydydd lle; cyfunwyd y rhain ar gyfer pob thema, a'u rhannu â nifer gyffredinol yr ymatebwyr a oedd yn ateb y cwestiwn hwn, i roi sgôr derfynol.

Ystyriwyd mai "Dysgu a thyfu i fyny yng Nghaerdydd" oedd y brif flaenoriaeth, gyda 37.7% o'r ymatebwyr yn graddio hyn yn y safle cyntaf, gyda sgôr gyffredinol o 1.6 allan o dri. Cafodd fwy o bleidleisiau nag unrhyw thema arall hefyd, gyda 70.7% o'r holl ymatebwyr yn nodi'r thema hon fel blaenoriaeth.

Yn yr ail le, yn sgorio 1.4, a'i rancio yn y safle cyntaf gan 22.5% o'r ymatebwyr, oedd "Economi Decach", a flaenoriaethwyd gan 64.1% o'r ymatebwyr.

Pleidleisiwyd "Amrywiaeth yn y Sector Cyhoeddus" o drwch blewyn i'r trydydd lle cyn "Llais Dinasyddion", gyda'r ddau yn cyflawni sgôr o 0.9, ond mae'r cyntaf yn cael y bleidlais uchaf yn gyffredinol (49. 8% o'i gymharu â 46.8%), a chyfran uwch o bleidleisiau safle cyntaf (14.0% o gymharu â 10.8%).




Nid oedd unrhyw amrywiad yn nhrefn blaenoriaeth yn ôl grŵp demograffig.

Gofynnwyd i'r rhai oedd yn blaenoriaethu "Rhywbeth Arall" nodi beth fyddai hyn. Mae'r canlyniadau wedi'u rhannu'n flaenoriaeth gyntaf, ail a thrydedd flaenoriaeth.

Rhoddwyd cyfanswm o 65 o ymatebion am flaenoriaeth gyntaf arall, sydd wedi'u grwpio yn y themâu canlynol:

| Thema | Ydw | % | Sylwadau enghreifftiol |
|---|---|---|---|
| **Diddymu'r Tasglu / Gwastraff arian** | 11 | *16.9* | - *Cau'r Tasglu a bwrw ymlaen â busnes y Cygnor. Mae llawer mwy o angen ymhlith yr henoed a'r rhai sy'n agored i niwed, rwy'n meddwl. Rhoi'r gorau i wastraffu adnoddau ar adeg mor anodd â hyn.*<br>- *Ail-ddefnyddio'r tîm hwn i wasanaethu preswylwyr yn well. Dyma wallgofrwydd cywirdeb gwleidyddol!*<br>- *Sicrhau bod y ddinas yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda (nad ydyw ar hyn o bryd) ac yn lân (nad ydyw ar hyn o bryd). Ymdrechion i fynd i'r afael â hyn ac nid "tasglu" sy'n dilyn agenda cywirdeb gwleidyddol. Digon o'r nonsens hwn* |
| **Cydraddoldeb i bawb** | 9 | *13.8* | - *Sicrhau cyfle cyfartal i bawb - dim gogwydd mewn unrhyw gyfeiriad nac ar gyfer unrhyw ran o'r gymuned*<br>- *Trin YR HOLL BOBL YN GYFARTAL. Bydd hyn yn cael ei helpu'n fawr drwy gael gwared ar bob defnydd o'r Gymraeg o bob ysgol, arwyddion, llythyrau Cyngor iaith ddeuol a'r tebyg. Yna gall pob dinesydd ddechrau cael ei drin yn gyfartal* |
| **Tlodi** | 8 | *12.3* | - *Canolbwyntio ar gymunedau difreintiedig (waeth beth fo'u hil) yn hytrach na grwpio unigolion gyda'i gilydd yn seiliedig ar liw'r croen.*<br>- *Triniaeth deg i'r tlawd - HYD YN OED OS ydynt yn wyn - help mewn ysgolion ar sail angen, nid lliw. - dyna gydraddoldeb hiliol* |
| **Addysg** | 6 | *9.2* | - *Gwella cyngor addysg a gyrfaoedd fel bod pobl ifanc o bob hil yn ymwybodol o amrywiaeth o gyfleoedd gyrfa*<br>- *Y cwricwlwm* |
| **Gwell integreiddio** | 6 | *9.2* | - *Helpu pawb i fyw mewn cymdeithas fwy cyfartal yn hytrach na gweld pobl BAME ar wahân*<br>- *Annog cymysgu digymell / "gyda'i gilydd" ymhlith pawb/grwpiau o bobl heb wahanu BAME* fel rhai arbennig ac felly eu cadw hyd yn oed yn fwy ar wahân. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Mae hyn y creu gwahaniaethu** | 6 | *9.2* | - *Rhoi'r gorau i greu mwy o raniadau ac ymrafael drwy gael y paneli gwirion hyn*<br>- *Cadw llais Caerdydd, rydym bron i gyd yn hil gymysg yn mynd yn ôl 80 mlynedd, trin pawb yn gyfartal, peidio â rhoi pobl Dduon uwchben gwyn neu byddwch yn creu gwahaniaethu, ni yw pobl frodorol Caerdydd, cadwch bawb yn gyfartal ac felly byddwch yn dileu hiliaeth* |
| **Trosedd** | 3 | *4.6* | - *Cadwch blant Asiaidd i ffwrdd o gael eu Radicaleiddio a bod yn "nonces" (ISIS a Gangiau Meithrin Perthnasau Amhriodol)* |
| **Amr.** | 27 | *41.5* | - *Pam mae angen i ni newid? Rhaid i hyn fod yn seiliedig ar dystiolaeth ac nid enghreifftiau hanesyddol yn unig.*<br>- *Gwella'r ffyrdd ar gyfer cerbydau preifat a chael gwared ar bob lôn fysiau a lonydd beicio*<br>- *Mae pob un yn bwysig* |

Rhoddwyd cyfanswm o 11 o ymatebion ar gyfer ail flaenoriaeth arall, sydd wedi'u grwpio yn y themâu canlynol:

| Thema | Ydw | % | Sylwadau enghreifftiol |
|---|---|---|---|
| **Addysg** | 4 | *36.4* | - *Addysg yw'r allwedd, un hil sef yr hil ddynol.*<br>- *Gwersi Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill sy'n cael trafferth, yn enwedig oedolion.* |
| **Tlodi/Digartrefedd** | 2 | *18.2* | - *Cael gwared ar bobl ddigartref o Gaerdydd.* |
| **Cymorth i grwpiau lleiafrifoedd ethnig** | 2 | *18.2* | - *Effaith anghymesur COVID-19 ar gymunedau BAME.* |
| **Iaith** | 2 | *18.2* | - *Sicrhau bod pawb sy'n chwilio am waith yn gallu siarad Saesneg.* |
| **Mae pob bywyd yn bwysig** | 1 | *9.1* | - *Sicrhau bod POB bywyd yn bwysig. Rhaid inni beidio â chael ein bwlio dim ond am fod rhai'n meddwl eu bod yn ei chael hi'n anodd. Nid yr UDA ydyn ni, nid oes arnom angen yr ymatebion difeddwl hyn oherwydd rhywbeth yno. Nid yw'r DU yn hiliol yn systemig ac nid yw Cymru ychwaith. Mae'n sarhad ar ddinasyddion cyffredin a'r rhai sy'n gweithio o fewn y system i awgrymu hynny. Mae llwfrgwn yn cuddio eu rhagfarn trwy neidio ar faterion poblyddol. Mae pobl 'wyn' dlawd hefyd ac yn byw yn yr un ardaloedd. Nid yw Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn trin pawb fel ei gilydd.* |

Rhoddwyd cyfanswm o 38 o ymatebion ar gyfer trydedd flaenoriaeth arall, sydd wedi'u grwpio yn y themâu canlynol:

| Thema | Ydw | % | Sylwadau enghreifftiol |
|---|---|---|---|
| **Cydraddoldeb i bawb** | 8 | *21.1* | - *Helpu pawb waeth beth fo'u hil, ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol*<br>- *Llais gwir drigolion Caerdydd sydd o bwys, boed yn ddu neu'n wyn, nid y rhai sydd wedi cyrraedd yn ddiweddar o ba bynnag hil neu grefydd.*<br>- *Cydraddoldeb i bawb, boed yn Gyfoethog, Tlawd, Gwyn, Heb fod yn Wyn, addysgedig, heb addysg.* |
| **Addysg** | 8 | *21.1* | - *Amlygu, annog a defnyddio'r sgiliau amrywiol a welir o fewn ein holl blant ysgol heb wahaniaethu.*<br>- *Addysg hygyrch am ddim i bawb.*<br>- *Prosiect addysg gyhoeddus am hanes Caerdydd a'r manteision i'r boblogaeth wyn o wladychiaeth/caethwasiaeth ac ati ar draul y gymuned Ddu* |
| **Mynd i'r afael â phob hiliaeth** | 5 | *13.2* | - *Ystyried rhagdybiaethau, bylchau mewn dealltwriaeth a phwyntiau cyfeirio diwylliannol ar draws ehangder y ddinasyddiaeth yng Nghaerdydd a chreu cysylltiadau a rhaglenni rhwng ysgolion/ rhyng-ffydd/ clybiau cymdeithasol i gywiro rhagdybiaethau anghywir a llenwi bylchau gyda gwybodaeth a dealltwriaeth briodol*<br>- *Mynd i'r afael â hiliaeth ar draws y sector cyhoeddus a'r sector preifat ehangach* |
| **Integreiddio** | 4 | *10.5* | - *Creu gweledigaeth o ddinas sy'n UN gymuned, nid yn ysgogi rhaniadau drwy bennu gwasanaethau a chymorth yn seiliedig ar liw croen*<br>- *Cymathu ac integreiddio* |
| **Diddymu** | 3 | *7.9* | - *Rhoi'r gorau i wastraffu arian cyhoeddus sy'n datrys problemau nad ydynt yn bodoli.* |
| **Iechyd** | 2 | *5.3* | - *Ffyrdd Iach o Fyw i Bawb* |
| **Amr.** | 12 | *31.6* | - *Bod yn llais yn erbyn caethwasiaeth plant a menywod*<br>- *Mwy o ailgylchu.*<br>- *Amrywiaeth yn y System Cyfiawnder: adolygiad o ragfarn hiliol a chynrychiolaeth BAME yn y system Llysoedd Teulu a Chyfiawnder Troseddol* |

## Proffil Demograffig

**Beth oedd eich oed ar eich pen-blwydd diwethaf?**

| | Na | % |
|---|---|---|
| **16-24** | 9 | 1.2 |
| **25-34** | 81 | 10.9 |
| **35-44** | 136 | 18.2 |
| **45-54** | 130 | 17.4 |
| **55-64** | 164 | 22.0 |
| **65-74** | 154 | 20.6 |
| **75+** | 51 | 6.8 |
| **Ddim am ddweud** | 21 | 2.8 |
| **Cyfanswm** | **746** | **100.0** |

**Pa un ydych chi?**

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| **Benywaidd** | 363 | 48.9 |
| **Gwrywaidd** | 350 | 47.1 |
| **Ddim am ddweud** | 26 | 3.5 |
| **Arall** | 4 | 0.5 |
| **Cyfanswm** | **743** | **100.0** |

**Ydych chi'n uniaethu'n drawsryweddol?**

| | Ydw | % |
|---|---|---|
| **Nac Ydw** | 3 | 0.4 |
| **Nifer** | 695 | 95.1 |
| **Gwell gennyf hunanddisgrifio** | 3 | 0.4 |
| **Ddim am ddweud** | 30 | 4.1 |
| **Cyfanswm** | **731** | **100.0** |

**A ydych chi'n eich ystyried eich hun yn berson anabl?**

| | Ydw | % |
|---|---|---|
| **Nac Ydw** | 90 | 12.2 |
| **Nifer** | 601 | 81.7 |
| **Ddim am ddweud** | 45 | 6.1 |
| **Cyfanswm** | **736** | **100.0** |

**Ticiwch unrhyw un o'r canlynol sy'n berthnasol i chi:**

| | Ydw | % |
|---|---|---|
| **Byddar / Wedi colli eich clyw / Trwm eich clyw** | 50 | 16.9 |
| **Anawsterau iechyd meddwl** | 66 | 22.4 |
| **Nam / anawsterau dysgu** | 13 | 4.4 |
| **Nam ar y golwg** | 14 | 4.7 |
| **Defnyddiwr cadair olwyn** | 4 | 1.4 |
| **Nam symudedd** | 68 | 23.1 |
| **Salwch neu gyflwr iechyd hirdymor (e.e. canser, diabetes neu asthma)** | 124 | 42.0 |
| **Ddim am ddweud** | 51 | 17.3 |
| **Arall** | 21 | 7.1 |
| **Cyfanswm yr Ymatebwyr** | **295** | **-** |

**Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau yr hyn yr ydych yn ei wneud ar hyn o bryd?**

| | Ydw | % |
|---|---|---|
| **Gweithio'n llawn amser (30+ awr yr wythnos)** | 319 | 43.4 |
| **Wedi ymddeol yn gyfan gwbl** | 202 | 27.5 |
| **Gweithio'n rhan-amser (llai na 30 awr yr wythnos)** | 92 | 12.5 |
| **Salwch parhaol neu berson anabl** | 29 | 3.9 |
| **Di-waith – Wedi cofrestru fel Ceisiwr Gwaith** | 16 | 2.2 |
| **Gofalu am blentyn neu oedolyn** | 15 | 2.0 |
| **Mewn addysg lawn-amser** | 14 | 1.9 |
| **Gofalu am y cartref** | 7 | 1.0 |
| **Mewn cytundeb gwaith dim oriau** | 7 | 1.0 |
| **Di-waith – Heb gofrestru ond yn chwilio am waith** | 7 | 1.0 |
| **Arall** | 27 | 3.7 |
| **Cyfanswm** | **735** | **100.0** |

### Ydych chi'n ystyried eich hun yn Gymro/Cymraes?

| | Ydw | % |
|---|---|---|
| **Nac Ydw** | 481 | 65.5 |
| **Nifer** | 253 | 34.5 |
| **Cyfanswm** | **734** | **100.0** |

### Beth yw eich grŵp ethnig?

Roedd cyfran yr ymatebwyr o ethnigrwydd lleiafrifol yn uwch na'r gyfran ar gyfer poblogaeth Caerdydd yn gyffredinol, fel y'i mesurwyd gan Gyfrifiad 2011.

| | Ydw | % | Cyfrifiad 2011 (% y rhai 16+ oed) |
|---|---|---|---|
| **Gwyn – Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig** | 481 | *64.6* | *82.1* |
| **Gwyn - Gwyddelig** | 12 | *1.6* | *0.9* |
| **Gwyn - Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig** | 1 | *0.1* | *0.1* |
| **Gwyn – Unrhyw gefndir gwyn arall** | 39 | *5.2* | *3.7* |
| **Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Gwyn a Du Caribïaidd** | 10 | *1.3* | *0.8* |
| **Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Gwyn a Du Affricanaidd** | 7 | *0.9* | *0.4* |
| **Grwpiau Cymysg / Aml-ethnig - Gwyn ac Asiaidd** | 10 | *1.3* | *0.5* |
| **Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig – Unrhyw un arall** | 11 | *1.5* | *0.5* |
| **Asiaidd / Asiaidd Cymreig / Prydeinig – Bangladeshaidd** | 9 | *1.2* | *1.1* |
| **Asiaidd / Asiaidd Cymreig / Prydeinig - Tsieineaidd** | 3 | *0.4* | *1.2* |
| **Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Indiaidd** | 11 | *1.5* | *2.3* |
| **Asiaidd / Asiaidd Cymreig / Prydeinig – Pacistanaidd** | 7 | *0.9* | *1.5* |
| **Asiaidd / Asiaidd Cymreig / Prydeinig – Unrhyw gefndir arall** | 2 | *0.3* | *1.2* |
| **Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Cymreig/Prydeinig - Affricanaidd** | 49 | *6.6* | *1.2* |
| **Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Cymreig/Prydeinig - Caribïaidd** | 22 | *3.0* | *0.4* |
| **Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Cymreig / Prydeinig – Unrhyw gefndir arall** | 7 | *0.9* | *0.4* |
| **Arabaidd** | 5 | *0.7* | *1.1* |
| **Unrhyw grwp ethnig arall** | 13 | *1.7* | *1.7* |
| **Ddim am ddweud** | 46 | *6.2* | - |
| **Cyfanswm** | **745** | ***100.0*** | |

### Ble cawsoch chi eich geni?

| | Ydw | % |
|---|---|---|
| **Rhywle arall yn y DU** | 225 | 30.4 |
| **Rhywle arall yng Nghymru** | 124 | 16.8 |
| **Yng Nghaerdydd** | 275 | 37.2 |
| **Y tu allan i'r DU** | 116 | 15.7 |
| **Cyfanswm** | **740** | **100.0** |